Cinio Nadolig y Gymdeithas Ddeintyddol

yng Ngwesty Ty'n Rhos, Seion, ger Bethel, Caernarfon

Daeth criw o tua deunaw o'r aelodau ynghyd i fwynhau noson bleserus a diddan iawn.

Roedd y cwmni'n dda, y bwyd yn ardderchog a'r noson wedi ei threfnu gyda'r graen arferol sydd mor nodweddiadol o William Parry (heblaw am y dryswch dechreuol ynghylch y dyddiad, y noson a'r amser – manylion dibwys, yntê William!).

Er bod Ieuan wedi mynnu gwisgo'i gilt, nid amharodd hynny ddim ar y noson. Diflannodd William hefyd pan oedd y bil am ddiodydd yn cael ei drafod, problem efo dyfnder ei bocedi a hyd ei freichiau, yn ôl pob sôn.

Noson i'w chofio yn bendant ac un a fu'n llwyddiant ysgubol. Chi na lwyddodd i ymuno â ni, da chi peidiwch â cholli'r cyfle y tro nesaf.

Y Gwyliwr Craff